

Chwarae Teg?

Defnyddio'r Gemau Olympaidd i edrych ar anghydraddoldeb



OXFAM

SESIWN GYMRAEG

Bywydau cydradd neu
anghydradd?



OXFAM

BETH YW ANGHYDRADDOLDEB?

Gallwn edrych ar anghydraddoldeb fel y gwahaniaeth rhwng y pethau sydd gan rai grwpiau o bobl o'u cymharu â phobl eraill.

Mae ychydig fel edrych ar ba mor fawr yw'r darn o deisen sydd gan un person o'i gymharu â pherson arall.



ANGHYDRADDOLDEB RHWNG

GWLEDYDD

Mae anghydraddoldeb rhwng gwledydd yn y byd.

Mae hyn yn golygu nad yw pethau wedi'u rhannu'n deg rhwng gwledydd.

Er enghraifft, mae rhai gwledydd yn gyfoethog ac mae eraill yn hynod o dlawd.




ANGHYDRADDOLDEB O FEWN GWLEDYDD

Hefyd mae anghydraddoldeb o fewn gwledydd.

Mae hyn yn golygu nad yw pethau'n cael eu rhannu'n deg o fewn yr un wlad.

Er enghraifft, efallai fod gan rai pobl fwy o arian nag eraill.



YSTYRIED ANGHYDRADDOLDEB

Nid mater o sut caiff arian ei rannu rhwng ac o fewn gwledydd yn unig yw anghydraddoldeb.

Gall fod anghydraddoldeb hefyd yn y mathau o gyfleoedd sydd gan bobl yn eu bywyd.



AMSER MEDDWL

- A ffurfiodd pobl res yn y drefn gywir, fwy neu lai?
- Sut penderfynoch chi ar eich lle chi yn yr hierarchaeth?
- Sut roedd y rhai ar y gwaelod ac ar y brig yn teimlo am eu triniaeth?
- Sut roeddech chi'n teimlo am safle neu driniaeth aelodau eraill o'r grŵp?
- A ddilynodd pawb y rheolau?
- Pam mae pobl yn dilyn rheolau sy'n annheg iddyn nhw?





OXFAM

RHOWCH GAM YMLAEN OS...

1. Rydych chi'n cael neu rydych wedi cael addysg ysgol gynradd.
2. Rydych chi'n cael neu rydych wedi cael addysg ysgol uwchradd.
3. Dydych chi byth yn brin o fwyd neu ddŵr.
4. Gallwch fforddio gweld meddyg a phrynu meddyginiaeth pan fydd gennych broblemau iechyd.
5. Mae gennych rym i ddylanwadu ar bobl yn eich cymuned.



RHOWCH GAM YMLAEN OS...

6. Mae gennych bobl sy'n poeni amdanoch ac yn eich gwarchod.
7. Does dim rhaid i chi wneud pethau peryglus er mwyn goroesi.
8. Rydych chi'n gallu fforddio lle i fyw.
9. Mae gennych chi sgiliau darllen ac ysgrifennu digon da i gael swydd sy'n rhoi cyflog rheolaidd.
10. Os ydych chi'n colli eich ffordd o wneud incwm, mae'n debygol y gallwch ddod o hyd i un arall.



O BLAID Y GEMAU OLYMPAIDD

Mae rhai pobl yn hapus iawn fod y Gemau Olympaidd yn dod i Rio de Janeiro yn 2016.

Beth allai fod yn fanteision llwyfannu'r Gemau Olympaidd, yn eich barn chi?



YN ERBYN Y GEMAU OLYMPAIDD

Chwiliwch am wybodaeth am rai o'r protestiadau a ddigwyddodd yn y cyfnod cyn Gemau Olympaidd Rio.

<http://www.bbc.co.uk/newsround/22947992>



OXFAM